

### GWYBODAETH I RIENI

Mae cost y gwersi'n dibynnu ar nifer y plant yn y grŵp, a chyfrifir y swm ar ddechrau'r tymor. Felly, er mwyn bod yn deg i bob rhiant, rhaid i ni fynnu ar y canlynol:

- Rhaid talu ar ddechrau'r tymor, cyn gynted ag y derbynnir yr anfoneb.
- Rhaid talu'r swm llawn ar gyfer pob tymor, er efallai y bydd y plentyn yn dymuno rhoi'r gorau i'r gwersi ar ôl ychydig wythnosau.
- Rhaid derbyn hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth riant/gwarcheidwad ynghylch rhoi'r gorau i wersi, fel arall bydd y gwersi'n parhau'n awtomatig o dymor i dymor.
- Ni fydd gwersi a gollir heb fai ar yr athro (e.e. gwyliau teuluol, teithiau ysgol, gweithredu diwydiannol, absenoldeb plentyn a.y.y.b.) yn ad-daladwy, er y bydd staff yn gwneud pob ymdrech i wneud iawn am waith a gollir.

### COST GWERSI

- **Gwersi grŵp** (pan fydd ar gael) yn costio **£5.50** yr wythnos e.e 2 yn rhannu 20 munud neu 3 yn rhannu 30 munud
- **Gwersi unigol** yn dechrau am **£8.25** am 15 munud

**Mae hyn yn golygu y bydd tymor 12 wythnos nodweddiadol yn costio:**

- Gwersi grŵp: **£66.00**
- Gwers 15 munud unigol: **£99.00**

### SUT I DALU AM WERSI

Bydd y gwersi'n dechrau ar ôl derbyn y ffurflen gofrestru atodedig. Rhoddir anfoneb i'ch plentyn ar ddechrau'r tymor, ar ôl cynllunio maint y grŵp a nifer y gwersi.

Gellir talu trwy siec, arian parod neu ar-lein. (Dylid gwneud sieciau'n daladwy i CAVMS Ltd)



## FFURFLEN YMRESTRU

Eich manylion (mewn priflythrennau) Canolfan Fusnes Cwrt Henstaff,  
Llenwch a dychwelwch at: Heol Llantrisant, Groes Faen, Caerdydd. CF72 8NG

Enw'r Myfyriwr

Rhiant /  
Gwarcheidwad

Cyfeiriad

Côd post

Rhif ffôn gartref

Rhif ffôn symudol

E-bost

Dyddiad geni

Offeryn

Ysgol

Dymunaf i'm plentyn ddysgu sut i chwarae'r offeryn uchod. Rwyf yn deall ac yn cytuno i gadw at y telerau a'r amodau a nodir yn y ddogfen hon, a thalu ffi'r tymor cyfan, er efallai y bydd fy mhentyn yn rhoi'r gorau i'r gwersi yn ystod y tymor.

Llofnod..... Dyddiad.....

O.N. Bydd y contract uchod yn berthnasol i bob tymor/blwyddyn olynol o hyfforddiant. Gweler y wybodaeth i rieni gyferbyn ar gyfer y polisi terfynu.